Senedd Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Effeithiau COVID-19: Galwad Agored am dystiolaeth a phrofiadau

EIS(5) COV – 08
Ymateb gan: Cyngor Sir Ynys Môn

Welsh Parliament
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Impacts of COVID-19: Open Call for evidence and experiences

Response from: Isle of Anglesey County Council

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**SWYDDOGOL**

# Galwad agored am dystiolaeth
# Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Senedd

## *Effeithiau Covid-19*

**Cyflwyniad gan Gyngor Sir Ynys Môn**
**Mehefin 2020**

**[PLEASE NOTE: An English translation of this statement is being submitted separately / NODWCH OS GWELWCH YN DDA: Mae cyfieithiad Saesneg o'r datganiad yn cael ei gyflwyno ar wahân]**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae economi Ynys Môn wedi bod dan anfantais ers amser maith oherwydd ei chymeriad gwledig ar ffaith ei bod ar y cyrion. Mae sectorau tymhorol â chyflog isel, megis twristiaeth ac amaethyddiaeth, yn chwarae rhan economaidd hynod bwysig. Mae Caergybi, fel porthladd mawr sy'n cysylltu'r Deyrnas Unedig ag Iwerddon (ac, o ganlyniad, yn cefnogi ystod o fusnesau cludo lleol sy'n gysylltiedig â chludiant, a busnesau cadwyni cyflenwi eraill), hefyd yn nodwedd amlwg o ddarparu cyflogaeth yn lleol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae hefyd bellach yn fan i lawer o longau pleser mawr alw yno, gyda 23 eisoes wedi'u cadarnhau yn ystod tymor mordeithio 2020.

1.2 O Broffiliau Marchnad Lafur Awdurdod Lleol mwyaf diweddar NOMIS, mae modd gweld bod Ynys Môn hefyd yn Sir o fusnesau bach / maint meicro yn bennaf ac o bobl hunangyflogedig.

1.3 Mae Covid-19 wedi taro Ynys Môn yn arbennig o galed felly, yn enwedig:

(i) yr economi ymwelwyr

(ii) cwymp enfawr yn y galw am rai allbynnau amaethyddol, a

(iii) trwy'r gostyngiad yn symudiadau pobl a nwyddau trwy borthladd Caergybi - porthladd sydd wedi'i eithrio o gymorth ariannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer llwybrau strategol

1.4 Cyn pandemig Covid-19, roedd economi Ynys Môn eisoes yn fregus. Roedd cau diweddar cwmnïau gweithgynhyrchu Marco Cable Management yn Llangefni a Rehau yn Amlwch, eisoes yn glec i'r Ynys. Mae gostyngiadau mewn lefelau staffio yng ngorsaf ynni niwclear Magnox yn yr Wylfa, wrth i'r datgomisiynu fynd yn ei flaen yn gwaethygu'r sefyllfa. Cafodd gobeithion o adfywiad economaidd, a ysgogwyd gan fuddsoddiad mewn adeiladu atomfa niwclear newydd ar y safle, eu chwalu yn ddiweddar hefyd pan ohiriwyd buddsoddi yn atomfa niwclear newydd Horizon Power / Hitachi ar y safle.

1.5 Fel sylw cyffredinol rhaid nodi mai megis dechrau mae'r gwaith o ganfod a deall effaith y pandemig. Hyd yn hyn, nid yw'r ystadegau swyddogol ar gael yn llawn. Mae Arolygon Rhanbarthol o effeithiau ar fusnesau hefyd yn y broses o gael eu datblygu a'u gweithredu gan, er enghraifft, Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae angen cwblhau'r rhain, eu holi a chymryd i ystyriaeth y wybodaeth a gynhyrchir.

## 2. Materion yn effeithio ar fusnesau lleol / bylchau mewn cefnogaeth

2.1 O ddechrau'r ymateb i'r pandemig, sefydlodd Cyngor Sir Ynys Môn Dîm Datblygu Economaidd Brys ynghyd â llinell gymorth bwrpasol i alwyr busnes. O ran negeseuon yn dod o fusnesau lleol, cyfyd y materion a ganlyn:

(i) Angen ailagor y Gronfa Cadernid Economaidd Mor fuan â phosib.

(ii) Busnesau gyda eiddo â Gwerthoedd Trethi sy'n uwch na £51,000 yn cael eu heithrio o'r Grant Rhyddhad Ardrethi ac yn ystyried bod hyn yn annheg.

(iii) Busnesau bychain sy'n masnachu dan y trothwy TAW o £85,000 yn anghymwys i gael cymorth y Gronfa Cadernid Economaidd.

(iv) Perchnogion / cyfarwyddwyr busnesau sy’n tynnu incwm o'u cwmni trwy ddifidendau dim yn cael eu digolledu drwy cymorth sydd ar gael gan Cyllid a Thollau EM.

(v) Elfen bwysig o'r stoc llety i ymwelwyr yw’r tai gwely a brecwast a thai llety bychain. O'r herwydd, maent yn talu treth gyngor yn hytrach na chyfraddau busnes nid ydynt yn gymwys, felly, i gael y cymorth trwy Grantiau Rhyddhad Ardrethi Busnes.

(vi) Gyda'r cyfnod cloi wedi’i ymestyn a hithau’n dod yn amlwg y bydd pellhau cymdeithasol yn dod yn nodwedd hirdymor o'r 'normal newydd', mae llawer o fusnesau lleol, yn enwedig yn y sector twristiaeth a lletygarwch, yn hynod bryderus am allu goroesi yn y tymor hir. Hefyd, ni all y nifer o fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn Ynys Môn adeiladu'r gronfa ariannol sy'n angenrheidiol i oroesi'r 'tymor caeedig' dros aeaf 2020.

(vii) Yn absenoldeb sector datblygu preifat mawr a bywiog lleol, mae llawer o fusnesau bychain yn y sector adeiladu yn dibynnu ar brosiectau a gwariant y sector cyhoeddus am ran sylweddol o'u hincwm. Mae llawer bellach yn mynegi pryderon, o gofio lefel y gwariant cyhoeddus sydd wedi mynd i ymateb i Covid-19, na fydd y pwrs cyhoeddus mewn sefyllfa i fuddsoddi mewn gwaith cyfalaf ôl-argyfwng, ac y bydd yn canslo contractau neu ddim yn bwrw ymlaen â phrosiectau.

(viii) Roedd llawer o fusnesau wedi methu â chysylltu â'u banc ac o'r rhai oedd yn llwyddo i gyflwyno ceisiadau am fenthyciad tarfu ar fusnes, roedd llawer yn aflwyddiannus gan y câi’r risg ei hystyried yn rhy uchel. I eraill, roedd y llog ar fenthyciadau a gynhigiwyd yn rhy uchel i wneud ad-daliadau’n ymarferol. Fel eithriad, heb os, mae Banc Datblygu Cymru wedi bod yn hynod ragweithiol ac yn canolbwyntio ar fusnes yn ei ymdrechion.

## 3. Materion trafnidiaeth

3.1 Mae lefel defnydd cludiant cyhoeddus lawr yn sylweddol a chwmnïau bws yn goresgyn dim ond oherwydd taliadau hael yn unol a chanllawiau LLC ac nad ydynt yn rhedeg gwasanaeth rheolaidd. Tydi hyn ddim yn gynaliadwy yn y tymor canol felly efo ymbellhau cymdeithasol a nerfusrwydd teithwyr, mae’r sector am fod o dan fygythiad. Bydd hynny yn amharu ar y sector addysg, gwaith, twristiaeth, hamdden ayyb ac yn arwain at fwy o ddefnydd cerbydau unigol ac allyriant.

3.2 Mae yna gynnydd wedi bod mewn cerdded a beicio ond er diben hamdden yn fwy na cymudo. Mae’r LLC yn annog ceisiadau am grant treialu mesurau annog cerdded, beicio a bysiau dros dro ond mae hyn yn heriol mewn ardal wledig. Mae angen cael Deddf Teithio Cymru i gydnabod pwysigrwydd gwella cyfleusterau cerdded a beicio hamdden a dim jyst cymudo.

3.3 Mae yma gyfle da treialu DRT (demand responsive taxi) mewn ardaloedd gwledig er mwyn gallu canolbwyntio adnoddau bysiau ar gludo y mwyafrif o deithwyr at ysbytai, siopa, trefi ayyb.

3.4 Risg sylweddol y bydd problemau parcio, traffig a diogelwch y ffordd y tu allan i ysgolion gan y bydd rhieni yn nerfus am adael eu plant fynd ar fws neu rhannu lifft.

3.5 Mae risg ail-don yn yr hydref / gaeaf pan na fydd cerdded a beicio yn opsiynau ymarferol.

3.6 Os yw LLC yn awyddus gweld cynnydd mae angen helpu efo rhoi mwy o adnoddau staff. Ar hyn o bryd mae mwy o ddisgwyliadau ond llai o staff.

## 4. Pobl ifanc a sgiliau

4.1 Rhaid cydnabod bod yna hefyd darfu sylweddol ar bobl ifanc a'u haddysg. Bydd rhai grwpiau oedran, yn benodol, ar adegau tyngedfennol yn eu llwybrau addysgol neu yrfa. Rhaid ystyried darpariaeth briodol trwy, er enghraifft, gymorthdaliadau cyflog, er mwyn cefnogi pobl ifanc i mewn i gyflogaeth a hyfforddiant fel nad ydynt mewn perygl o fynd yn 'angof' neu o fod y 'genhedlaeth goll' yng nghanol yr hyn a ddaw yn sgil y pandemig.

4.2 Bydd prentisiaethau a hyfforddeiaethau yn hanfodol wrth symud yr economi ôl-Covid-19 yn ei flaen. Mae angen nid yn unig amddiffyn a gwarchod cyllidebau Addysg Bellach i gefnogi prentisiaeth, ac argaeledd lleoedd prentisiaeth, ond mae angen hefyd ystyried eu cynyddu ac ehangu'r ddarpariaeth - yn enwedig gan fod data diweddar NOMIS yn dangos na grwpiau oedrannau iau sydd yn cael eu taro'n galetaf gan y pandemig ar Ynys Môn ac yn cofrestru ar gyfer Credyd Cynhwysol i raddau anghymesur mwy na gweithwyr hŷn.

## 5. Edrych i'r dyfodol

5.1 **Y sector dwristiaeth** – o drafodaethau diweddar gydag e.e. Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn, y prif faterion y mae angen rhoi sylw iddynt yw:

(i) Cynnig cymorth i fusnesau lletygarwch a thwristiaeth sydd â gwerth ardrethol uwch na £51,000, a hynny drwy'r Grant Cyfradd Busnes / Cronfa Cadernid Economaidd

(ii) Bod angen annog y sector ariannol i fod yn fwy rhagweithiol ac ymatebol i anghenion busnesau lletygarwch a thwristiaeth

(iii) Byddai cyfarwyddeb gryfach y gellir ei gorfodi mewn perthynas ag eiddo ar brydles / rhent, lle nad yw landlordiaid yn dal i gadw at y canllawiau ynghylch gwyliau rhent a throi allan, yn ddefnyddiol

(iv) Cydnabod bod cwmnïau yswiriant busnes yn ymddwyn mewn ffordd fwy hyblyg a chydymdeimladol oherwydd heriau ariannol Covid-19 a brofir gan fusnes lletygarwch a thwristiaeth a gweithredu i sicrhau hynny.

(v) Ar draws yr economi thwristiaeth, a'r economi gwledig yn ehangach, mae cynlluniau cynorthwyo gyda chyflog – cynlluniau 'penodol' ac 'wedi'u targedu' – yn haeddu ystyriaeth bellach

5.2 **Y sector amaeth** - Mae agendâu clir yn dod i'r amlwg sy'n nodi anghenion a dyheadau ar gyfer y sectorau hyn. Rydym yn hyderus y bydd cynrychiolwyr y sector yn cyfleu'r rhain yn effeithiol iawn i chi.

5.3 **Porthladd Caergybi.** Wedi'i anwybyddu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei hymrwymiad i gefnogi llwybrau môr strategol eraill, mae'r cyswllt rhwng Caergybi a Dulyn bellach yn ariannol 'fregus' ac mae'n hanfodol y caiff cyllid ei roi i ddiogelu'r Porthladd drwy'r amser anodd hwn.

5.4 **Bargen Twf y Gogledd**, Bydd pecyn o gynlluniau cyfalaf priodol ac uchelgeisiol yn hanfodol. Pwysig hefyd i lywodraeth y DU gysidro cefnogaeth i sicrhau datblygiad Wylfa Newydd.

5.5 **Cyfleoedd arwyddocaol eraill** – ymhlith rhain mae datblygiadau pellach o Borthladd Caergybi, parth arddangos ynni adnewyddadwy alltraeth Morlais a ehangu ymhellach Parc Gwyddoniaeth Menai, M-SParc.

5.6 **Diweithdra** – hud yn oed yn y mis cyntaf llawn o 'lock-down' (Mawrth 2020 i Ebrill 2020), mae'r niferoedd sydd yn hawlio 'Universal Credit' ar Ynys Môn wedi cynyddu'n sylweddol

(o 1,335 i 2,315 dros cyfnod o fis). Mae'r sefyllfa am ddirywio bellach, yn enwedig pan ddaw y cyfnod 'furlough' i ben. O'r herwydd, mae'n hanfodol bod gan adrannau fel yr Adran Gwaith a Phensiynau y gallu a'r adnoddau i ddelio â'r rhai sydd newydd ddod yn ddi-waith mewn modd teg, cyfiawn a chyflym er mwyn diogelu eu lles parhaus a lles eu teuluoedd. Yn yr un modd, wrth i gyfleoedd cyflogaeth a ffyniant ddychwelyd, rhaid i'r un adrannau a'r asiantaethau hyn feddu ar yr adnoddau a'r gallu sydd eu hangen i frocerio, cefnogi a gweithredu mentrau'n effeithiol i sicrhau bod unigolion o'r fath yn cael eu hailgyflogi'n brydlon.

5.7 **Creu economi sydd fwy gwydn i argyfyngau yn y dyfodol -** angen darn o waith i fonitro, gwerthuso a gwneud argymhellion ar hyn a hefyd archwilio 'cyfleoedd' - gwaith gweithgynhyrchu a chynhyrchu lleol PPE neu gynhyrchion fferyllol, er enghraifft, i greu gallu 'lleol' a helpu i sicrhau gwytnwch yn y dyfodol.

5.8 **Cadwyni cyflenwi addas i'r dyfodol** – angen cysidro modelau o gwmpas, er enghraifft, rheoli perthynas cyflenwyr (nid yn dibynnu ar gyflenwadau gan un cyflenwr neu grŵp o gyflenwyr o'r un ardal ddaearyddol), gan ddatblygu strategaethau aml-gyrchu, datblygu dulliau newydd i reoli rhestrau eiddo a lefel stoc, gan gynnwys darparwyr logisteg fel partneriaid mewn busnes, arallgyfeirio busnesau i wneud neu gynhyrchu cydrannau allweddol yn hytrach na dibynnu ar gyflenwi jesd mewn pryd rannau a osodwyd yn ei gilydd ymlaen llaw ac ati. Mae cyfle yma hefyd i fanteisio ar leihau 'oel troed carbon' y cadwyn cyflenwi. Mae llawer o effeithiau Covid-19 ar wytnwch y gadwyn gyflenwi yn cael eu cymharu â'r rhai a fydd hefyd, o bosibl, yn cyd-fynd â chyfnodau newid yn yr hinsawdd. Yn y ddau achos, mae'n ymddangos bod mentrau sy'n ein symud at gadwyni cyflenwi byrrach, gan gynhyrchu a phrynu'n lleol, nid yn fyd-eang, yn gwneud synnwyr economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol.

5.9 **Cyfarfod costau 'ymateb' awdurdodau lleol** - O safbwynt awdurdodau lleol;

(i) fel bod modd i Lywodraeth Cymru gefnogi Awdurdodau Lleol, mae angen rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru ganiatáu i Awdurdodau Lleol ohirio'r costau ychwanegol / y colli incwm sy'n deillio o'r pandemig fel nad o gronfeydd wrth gefn pob awdurdod lleol y bydd cyllid, nad yw'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn dod. Y ffordd hawsaf i hyn ddigwydd fyddai caniatáu gyfalafu'r gost ac i Lywodraeth Cymru ariannu cost refeniw flynyddol y benthyca a ddaw yn sgil hynny.

(ii) Bydd costau ychwanegol sy'n codi o'r economi'n crebachu a'r cynnydd mewn diweithdra hefyd yn syrthio ar awdurdodau lleol trwy gynyddu gwariant er mwyn ariannu'r Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor a thrwy ddileu mwy o Dreth Gyngor nad oes modd ei chasglu.

(iii) Unwaith eto, bydd angen cymorth Llywodraeth Cymru ar awdurdodau lleol i dalu'r costau ychwanegol hyn / yr incwm a gollir. Mae awdurdodau lleol hefyd mewn sefyllfa dda i gyflawni prosiectau seilwaith ar ran Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ond mae angen system grantiau mwy syml a hyblyg nad oes angen llawer o weinyddiaeth a biwrocratiaeth arni i ariannu hyn - mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn hyblyg o ran sut y rhoddir yr arian hwn i awdurdodau lleol.

5.10 **Cymorth Busnes** - archwilio ffyrdd o gefnogi a goresgyn materion sy'n effeithio ar ein busnesau lleol yn ariannol, fel yr amlygwyd yn Adran 2 (ac yn 5.1 ar gyfer y sector twristiaeth yn benodol), er mwyn sicrhau eu goroesiad trwy'r tymor canolig i'r tymor hir fel y gallent, yn y dyfodol , gyfrannu eto at economi fywiog a chynaliadwy ar yr Ynys.